Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Gwrando ar y gymuned

## Pa mor dda y mae darparwyr am ganfod anghenion dysgu oedolion yn eu cymunedau lleol?

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE
SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

GORFFENNAF 2009

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol (GAALlau);
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cefndir** **1**

Cyd-destun y cylch gwaith 1

**Cyflwyniad** **3**

**Prif ganfyddiadau** **4**

**Argymhellion** **6**

**Pa mor dda y mae darparwyr yn ymgynghori â dysgwyr am y ddarpariaeth?** **8**

**Pa mor dda y mae darparwyr yn cynnwys dysgwyr wrth gynllunio'r cwricwlwm?** **11**

**Pa mor dda y mae darparwyr a rhwydweithiau dysgu oedolion yn rhannu gwybodaeth gyda dysgwyr?** **15**

**Pa mor dda y mae darparwyr yn defnyddio ymgynghori â dysgwyr a'u cymunedau i fynd i'r afael â mentrau polisi LlCC?** **16**

**Sut gall cyfranogiad dysgwyr mewn cynllunio dysgu oedolion yn y gymuned symud ymlaen?** **18**

**Atodiad 1: Adroddiad Beecham: Model y Dinesydd – goblygiadau ar gyfer dysgwyr**

**Atodiad 2: Adroddiad Beecham: Model y Dinesydd – goblygiadau ar gyfer sefydliadau**

**Atodiad 3: Panel Dysgwyr Cenedlaethol Lloegr**

**Geirfa / cyfeiriadau**

**Awdur a thîm yr adroddiad**

# Cefndir

## Cyd-destun y cylch gwaith

1 Yn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) adolygiad Beecham 'Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd' (2006). Canolbwyntiodd yr adroddiad hwn yn ar ffactorau llwyddiant critigol sydd eu hangen i wella'r modd y caiff dysgu oedolion yn y gymuned ei gyflwyno ar lefel awdurdodau lleol. Amlygodd yr adroddiad bwysigrwydd ymgysylltu â dinasyddion trwy gynnwys dysgwyr mewn cynllunio gwasanaethau ar gyfer pob dysgwr.

2 Blwyddyn yn ddiweddarach, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Adroddiad Webb 'Addewid a Chyflawniad: Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' (2007).

3 Gwnaeth yr adroddiad hwn argymhellion ar gyfer dysgu oedolion a dysgu cymunedol ac anghenion yr oedolion mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Aeth Adroddiad Webb i'r afael ag ystod eang a chymhleth o faterion cysylltiedig yn erbyn gwahanol ddarparwyr sy'n cyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned a'r diffyg persbectif strategol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC).

4 Nododd Webb fod gan sefydliadau gwirfoddol rai o'r straeon llwyddiant gorau gyda'r oedolion anoddaf eu cyrraedd, y mae'n rhaid eu denu'n anffurfiol i ail-feithrin perthynas â byd dysgu.

5 Roedd tystiolaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) i Adolygiad Webb yn dangos bod sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn gwneud cyfraniad unigryw i ddysgu gydol oes, wedi'i seilio ar eu perthynas â'u haelodau a defnyddwyr a'u hymestyniad i mewn I gymunedau sydd wedi'u hymyleiddio a chymunedau dan anfantais.

6 Mae gan awdurdodau lleol rhan i'w chwarae hefyd trwy sicrhau bod eu holl raglenni sy'n cynnwys dysgu oedolion yn y gymuned yn cysylltu'n dda â'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer oedolion yn eu hardal.

7 Gall prifysgolion gyfrannu trwy ddefnyddio'r ffrwd ariannu addysg uwch i ddarparu mynediad at addysg uwch a hyrwyddo mynediad trwy bartneriaethau â sefydliadau addysg bellach, yn ogystal â rhaglenni trwy ganolfannau dysgu gydol oes. Roedd Webb o'r farn bod polisi 'Ymestyn yn Uwch Ymestyn yn Ehangach' Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi cyflwyno, mewn rhai achosion, cydlyniad lleol a rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau addysg i ddysgwyr dan anfantais.

8 Gwnaeth Adroddiad Webb sawl argymhelliad ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned (DOG), gan gynnwys y dylai'r rheiny sy'n llunio polisïau ailffocysu ar y rheiny:

- a nad ydynt wedi cyflawni cymwysterau Lefel 2;
- b sy'n perthyn i grwpiau poblogaeth lle mae cyfranogiad yn arbennig o isel; a/neu
- c sy'n byw mewn ardaloedd sydd dan anfantais addysgol amlwg.

9 Awgrymodd yr Adroddiad hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal rhaglen beilot sy'n cyfuno Cyfrifon Dysgu Unigol a grantiau er mwyn mwyhau hyblygrwydd wrth gyflwyno i'r dysgwyr mwyaf difreintiedig.

10 Yn 2007, cyhoeddodd llywodraeth San Steffan Adroddiad Leitch *'Prosperity for all in the global economy – world-class skills'*. Amlinellodd yr adroddiad agenda medrau er mwyn gwella'r rhagolygon cyflogaeth ar gyfer poblogaeth y Deyrnas Unedig.

11 Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Diweddariad ar yr Asesiad Cenedlaethol ar Ddysgu a Sgiliau Datganiadau o flaenoriaethau ar gyfer newid 2007-2010' (2007). Amlinellodd yr adroddiad hwn y blaenoriaethau strategol ar gyfer newid dysgu ôl-16 ac addysg wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i darparwyr dysgu. Nododd yr adroddiad hwn y newidiadau i ddemograffeg Cymru a oedd yn amlygu cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n dysgu ond gostyngiad yn nifer y dysgwyr iau yng Nghymru erbyn 2010.

12 Ymgynghorodd LlCC ar 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn 2008. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn ymateb i Adolygiad Leitch o fedrau ac adolygiad Webb ar addysg bellach trwy ddod â chynigion at ei gilydd i fynd i'r afael â gofynion y galw a chyflenwad i ddysgwyr.

13 Mae LlCC yn ymgynghori ar bolisi dysgu oedolion yn y gymuned, gyda pholisi terfynol a chynllun gweithredu yn cael eu cyhoeddi yn ystod haf 2009.

**Crynodeb o'r dystiolaeth bresennol a'r gwaith a gwblhawyd eisoes gan Estyn**

14 Yn 2008, cyhoeddodd Estyn 'Cyfuno'r ffiniau: Effeithiolrwydd Partneriaethau Lleol wrth Gyflwyno Dysgu Oedolion yn y Gymuned'. Ystyriodd yr adroddiad hwn effeithiolrwydd gwaith partneriaeth rhwng darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru. Fe wnaeth sylwadau cychwynnol hefyd am sut y mae darparwyr yn cynnwys dysgwyr mewn cynllunio dysgu oedolion yn y gymuned yn y partneriaethau hyn.

15 Mae'r adroddiad yn argymell bod darparwyr:

- yn cynnal archwiliad effeithiol o anghenion cymunedau ac yn llunio cwricwlwm priodol;
- yn nodi grwpiau blaenoriaeth o ddysgwyr;
- yn nodi ac yn hyrwyddo llwybrau dilyniant ar gyfer dysgwyr; a
- bod ganddynt ddulliau clir o gynnwys dysgwyr mewn penderfyniadau a chynllunio'r cwricwlwm.

## Cyflwyniad

16 Pwrpas y papur hwn yw rhoi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ystod ac ansawdd y dulliau sy’n cael eu defnyddio gan ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned i gynnwys dysgwyr a darpar ddysgwyr mewn datblygu, cynllunio a gwella rhaglenni dysgu.

17 Mae’r adroddiad yn canolbwyntio ar:

- ba mor dda y mae dysgwyr yn cyfrannu at ddatblygu cyfleoedd dysgu lleol;
- pa mor dda y gall dysgwyr cymunedol lywio dewis y pynciau cwricwlaidd sydd ar gael iddynt;
- ystod y gwaith gydag aelodau cymunedau nad ydynt yn cymryd rhan mewn dysgu, yn enwedig y darpar ddysgwyr hynny mewn cymunedau difreintiedig, ynghylch sut y gellir eu hannog a’u cefnogi i ddychwelyd i ddysgu;
- pa mor dda y mae darparwyr yn cefnogi cyfleoedd i ddysgwyr fod yn weithredol yn eu cymunedau trwy raglenni dysgu lleol;
- sut y gall dysgwyr hŷn ddefnyddio’r rhaglenni i hyrwyddo eu hiechyd a’u lles;
- pa mor dda yw ystod y cyfleoedd i oedolion sy’n dysgu yn y gymuned ddylanwadu ar y rhaglen sydd ar gael er mwyn gwella lefelau eu medrau i fynd yn ôl i mewn i waith; a
- pha mor dda y mae darparwyr yn meithrin cysylltiadau â chyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd lleol a datblygu medrau ar gyfer dysgwyr DOG.

## Prif ganfyddiadau

18 Mae llawer o diwtoriaid a gweithwyr datblygu yn ymgynghori â dysgwyr yn rheolaidd ynghylch eu profiad o ddysgu yn ystod y sesiwn y mae'r dysgwyr yn ei mynychu. Lle bo gan ddarparwyr ddull o gasglu'r wybodaeth hon yn gyson, mae dysgwyr yn gwybod bod eu barn yn cael ei hystyried. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys amseriad y cyrsiau ac addasrwydd y lleoliadau y cynhelir y sesiynau ynddynt. Mewn rhai achosion, mae hyn hefyd yn cynnwys gofal plant ac adnoddau dysgu sydd eu hangen i gefnogi dysgwyr mewn lleoliadau cymunedol. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr a'u rhwydweithiau ddull cyson o ymgynghori â dysgwyr ynghylch datblygu'r ddarpariaeth yn eu hardal leol.

19 Mewn rhai achosion, mae darparwyr a'u rhwydweithiau wedi ystyried sut i gynnwys dysgwyr mewn cynllunio'r cwricwlwm. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr wedi cynnwys dysgwyr ar bob lefel o'u sefydliadau. Mae lleiafrif o'r rhwydweithiau yn defnyddio eiriolwyr dysgwyr yn dda i drafod y cwricwlwm gyda dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr. Mewn rhai achosion, mae darparwyr a rhwydweithiau yn defnyddio cyllid prosiect yn dda i helpu cymunedau i nodi eu hanghenion dysgu lleol. Mae'r grantiau hyn yn helpu darparwyr i gynnwys dysgwyr mewn datblygu cyfleoedd dysgu, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.

20 Nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr a rhwydweithiau dysgu oedolion yn rhannu gwybodaeth yn gyson â'u dysgwyr. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gallu disgrifio sut y mae canlyniadau unrhyw ymgynghoriad wedi dylanwadu ar ddatblygu dysgu yn eu hardal. Mae gan ychydig iawn o ddarparwyr a rhwydweithiau ddulliau o gynnwys dysgwyr mewn trafodaethau rheolaidd ynghylch datblygu eu rhaglenni dysgu.

21 Ychydig iawn o weithwyr a rheolwyr sy'n deall yn ddigon da sut y dylai'r ystod o fentrau polisi ddylanwadu ar eu gwaith gyda dysgwyr yn y gymuned. Er enghraifft, nid yw'r argymhellion yn Adroddiad Beecham o ddulliau sy'n canolbwyntio mwy ar ddysgwyr wedi'u hymgorffori'n ddigon da mewn dulliau o weithio mewn cymunedau. Fodd bynnag, mae nifer ehangach o weithwyr mewn rhwydweithiau lleol yn deall polisïau fel 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn gliriach.

22 Nid yw'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) nac adrannau eraill LICC wedi datblygu eu cyngor yn ymwneud ag Adroddiad Beecham a gwaith cymunedol yn ddigon da i sicrhau bod pob rhwydwaith mewn lleoliadau cymunedol yn cysylltu'n fwy llwyddiannus â'i gilydd. Nid yw arweiniad presennol yn ddigon clir i sicrhau bod rhwydweithiau dysgu cymunedol yn cynnwys dysgwyr yn fwy cyson ac yn eu hannog i gymryd mwy o ran mewn ymgynghoriadau â dinasyddion. Mae Adroddiad Beecham yn rhoi argymhellion clir ar gyfer cynnwys dysgwyr mewn datblygu a gwella gwasanaethau lleol. Nid yw'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys yn ddigon da mewn arweiniad a roddwyd gan APADGOS i ddarparwyr sy'n cymryd rhan mewn dysgu yn y gymuned.

23 Nid yw rhwydweithiau dysgu lleol yn trafod gyda phartneriaid eraill sy'n gweithio yn yr ardal leol sut i gydweithio'n agosach â'i gilydd er mwyn cynnwys dysgwyr mewn ymgynghoriadau yn fwy cyson. Hefyd, dylai ymgynghoriadau gynnwys dulliau o sicrhau bod dysgwyr yn gwybod lle y mae eu barnau wedi cael effaith.

24 Nid yw llawer o ddarparwyr mewn rhwydweithiau dysgu yn defnyddio’r adnoddau presennol yn effeithiol i roi cyfleoedd datblygu staff i’w gweithwyr er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o’r dulliau sy’n cael eu defnyddio wrth ymgynghori â’r gymuned. Nid ydynt chwaith yn helpu eu rheolwyr i ddeall ymgynghori â’r gymuned na medrau datblygu’r gymuned. Nid yw’r rhan fwyaf o weithwyr yn cydnabod lle y mae gwaith ymgynghori rhwydweithiau cymunedol yn fwyaf effeithiol. Nid yw gweithwyr yn gwybod sut i ddatblygu arfer dda wrth weithio gyda dysgwyr nac yn defnyddio canlyniadau ymgynghoriadau’n dda.

## Argymhellion

**Dylai Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 gydweithio ag adrannau eraill LICC, er mwyn egluro sut y gall darparwyr dysgu yn y gymuned sbarduno gwelliannau i wasanaethau trwy ymgynghori'n fwy effeithiol â chymunedau lleol. Dylai hyn ystyried:

- darpariaeth a allai alluogi dilyniant i weithgareddau dysgu pellach ac uwch neu i gyflogaeth, boed yn daledig neu'n wirfoddol; a
- darpariaeth sy'n cynnig buddion ehangach ar gyfer unigolion neu gymunedau, fel cynhwysiad cymdeithasol neu iechyd a lles gwell;

A2 hwyluso astudiaethau arhydol o weithgarwch dysgu sy'n cael ei greu gan ddysgwyr i gofnodi'r canlyniadau a dathlu a rhannu arfer dda; a

A3 chreu panel dysgwyr cenedlaethol o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn rhwydweithiau dysgu cymunedol ledled Cymru i ddatblygu rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned.

**Dylai rhwydweithiau dysgu cymunedol:**

A4 ymgynghori â dysgwyr yn fwy cyson i greu dinasyddion mwy ymgysylltiedig a gwybodus er mwyn hyrwyddo mwy o falchder, uchelgais ac atebolrwydd lleol yn eu cymunedau lleol; ac

A5 annog rheolwyr corfforaethol sy'n gweithio mewn rhwydweithiau dysgu cymunedol i gytuno ar brosesau ar gyfer ymgynghori â dysgwyr sydd:

- yn ystyried yr ystod eang o ganlyniadau sy'n deillio o weithgareddau dysgu llwyddiannus yn y gymuned;
- yn cydlynu ymgynghoriadau ar anghenion dysgu yn y gymuned ar draws sefydliadau lleol ac adrannau awdurdodau lleol;
- yn sicrhau, gyda'u partneriaid ehangach yn y rhwydwaith dysgu, bod anghenion dysgu'r rheiny nad ydynt yn dysgu yn cael eu hymchwilio a'u nodi; ac
- yn sicrhau bod dysgwyr a'r rheiny nad ydynt yn dysgu yn cael gwybod am ganlyniadau ymgynghoriadau ac yn eu deall.

**Dylai darparwyr unigol:**

A6 wella cysondeb digwyddiadau ymgynghori ar gyfer dysgwyr er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn deall sut y mae eu cyfraniad at ymgynghoriadau lleol yn effeithiol ar y modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno a'i wella;

A7 nodi cysylltiadau â’r rhwydwaith lleol er mwyn cydlynu gweithgareddau ymgynghori â dysgwyr gyda sefydliadau lleol eraill ac adrannau awdurdodau lleol; a

A8 phenderfynu, gyda sefydliadau eraill yn y rhwydwaith dysgu cymunedol, sut i gynyddu dealltwriaeth o ymgynghori â’r gymuned trwy gyfleoedd datblygu staff trwy ystyried:

- secondiadau traws-sector;
- cysgodi;
- datblygu medrau partneriaeth; a
- chynllunio’r gweithlu ar y cyd.

## Pa mor dda y mae darparwyr yn ymgynghori â dysgwyr am y ddarpariaeth?

25 Mae llawer o'r darparwyr yn ymgynghori â'u cymuned leol o ddysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn cynnal ymgynghoriadau â'u dysgwyr yn rheolaidd. Mae mwyafrif y darparwyr yn defnyddio arfarnu cyrsiau, grwpiau ffocws a chyfarfodydd â dysgwyr i gynnal yr ymgynghoriadau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn cydnabod mai ymgynghoriadau yw'r trafodaethau hyn bob tro, ac nid ydynt yn gwybod pam y maent yn cymryd ynddynt.

26 Nid yw rhwydweithiau dysgu a darparwyr yn adrodd gwybodaeth yn ôl i ddysgwyr am gynnydd y camau gweithredu sy'n deillio o ymgynghoriadau bob tro. Mae rhai darparwyr wedi cytuno ar ddulliau o ymgynghori â dysgwyr yn gyson. Yn yr achosion gorau, gall dysgwyr ddisgrifio canlyniadau ymgynghoriadau. Er enghraifft, roedd dysgwr yn Abertawe yn gallu nodi gwelliannau yn y system gofrestru ar gyfer oedolion sy'n dysgu o ganlyniad i gymryd rhan yn y grŵp ffocws lleol. Fodd bynnag, dim ond rhai dysgwyr sy'n gallu disgrifio newidiadau a datblygiadau o ganlyniad i ymgynghoriadau â dysgwyr.

27 Yn yr achosion gorau, mae'r darparwyr yn cynnwys dysgwyr yn eu grwpiau rheoli, fel Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG). Mae'r CAG yng ngogledd a de Cymru yn ymroi i drefnu eu rhaglenni dysgu mewn ymgynghoriad â'u canghennau dysgwyr. Mae aelodau'r canghennau hyn yn gyfrifol am ymgynghori â dysgwyr yn rheolaidd ac maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda gweithwyr a rheolwyr CAG i drafod y cwricwlwm a sut i ddatblygu'r rhaglenni sy'n cael eu cynnig i'r cymunedau lleol.

**Dywed arolygiad Estyn o CAG De Cymru (2008):**

"Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG) (De) yn rhoi anghenion dysgwyr wrth wraidd ei chwricwlwm. Mae gan ddysgwyr rôl allweddol wrth bennu beth a sut y byddant yn dysgu. Mae hon yn egwyddor allweddol o ddarpariaeth CAG (De). Mae'n ysgogwr pwerus, sy'n annog y brwdfrydedd gorau posibl, gan sicrhau bod llawer o ddysgwyr yn dychwelyd i ddysgu.

Mae CAG (De) yn annog pob un o'r dysgwyr i ddod yn aelodau o ganghennau lleol Cymdeithas Addysg y Gweithwyr. Mae hyn yn helpu dysgwyr i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar yr hyn a gynigir mewn ardaloedd lleol. Mae CAG (De) yn rhoi cymorth da i 15 o ganghennau gweithredol ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys cangen dysgwyr Cymraeg a changen dysgwyr croenddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd.

Gyda'i phartneriaid lleol, mae CAG De Cymru wedi ymgymryd â gwaith ymchwil i 'Ymgorffori fforymau darparwyr/dysgwyr'. Caniataodd dri phrosiect peilot yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe i ddysgwyr nodi canlyniadau cadarnhaol o'u cyfranogiad yn y fforymau. Roedd y rhain yn cynnwys;

- cael llais a chael eu clywed;
- bod gyda phobl sydd â diddordeb tebyg a gwneud ffrindiau newydd;
- gweithio'n rhyngweithiol mewn grwpiau bach;
- cydnabod ymroddiad cyfranogwyr a'u hysbrydoli;
- defnyddio cysylltiadau cymunedol y cyfranogwyr er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedol yn cael eu bodloni er mwyn ymestyn cyfranogiad;
- tystiolaeth o wneud gwahaniaeth; ac
- atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau.

Hefyd, nododd y prosiect ffactorau llwyddiant critigol ar gyfer darparwyr a'u rhwydweithiau wrth gydweithio â fforymau dysgwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- amser a lleoliad cyfleus ar gyfer cyfarfodydd;
- trefnu cyfarfodydd perthnasol a diddorol er mwyn sicrhau cyfranogiad gyda therfyn amser realistig;
- darparu meithrinfa neu gymorth ar gyfer gofal plant;
- talu costau teithio;
- hyfforddiant ar gyfer cymryd rhan, er enghraifft medrau cyfarfod a chyflwyno;
- rhoi statws a pharch cyfartal i'r holl gyfranogwyr; a
- dim jargon nac acronymau."

28 Lle mae dysgwyr yn cael eu cynnwys yn fwy cyson ac yn effeithiol mewn ymgynghori, mae'r dysgwyr hynny yn fwy ymwybodol o ystod o faterion y mae angen i ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned eu hystyried wrth ddatblygu rhaglenni hyblyg a symbylol ar gyfer oedolion sy'n dysgu yn y gymuned.

29 Rhoddodd lleiafrif o ddysgwyr, y mae eu tiwtoriaid a gweithwyr datblygu yn ymgynghori â nhw yn rheolaidd, eu barn am ystod o faterion sy'n effeithio ar y modd y caiff eu cyrsiau a'u sesiynau eu cyflwyno. Roedd y lleiafrif hwn o ddysgwyr yn adrodd bod y pynciau canlynol yn cael eu cynnwys yn eu hymgynghoriadau:

| **Materion a drafodwyd gyda dysgwyr** | **Canran y dysgwyr** |
|---|---|
| Yr hyn y gellid ei wneud i wella cyrsiau a sesiynau | 73% |
| Yr amser y mae'r cwrs yn dechrau ac yn gorffen | 72% |
| Ymhle y caiff y cwrs ei gynnal ac a yw'r lleoliad yn addas | 66% |
| Cost y cyrsiau a'r sesiynau | 59% |
| Y mathau o gyrsiau neu bynciau i'w cynnig | 25% |

30 Mewn rhai achosion, mae tiwtoriaid a gweithwyr hefyd yn trafod gyda dysgwyr sut y gellir datblygu'r anghenion gofal plant, adnoddau dysgu a chymorth sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu nodau dysgu. Dim ond rhai dysgwyr sy'n gallu rhoi enghreifftiau o sut mae'r ymgynghoriadau hyn yn effeithio ar y modd y caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno a dim ond lleiafrif o ddysgwyr sy'n cyfarfod â rheolwyr i drafod sut y gellid datblygu'r ddarpariaeth dysgu yn y gymuned yn eu hardal.

31 Nid yw llawer o ddarparwyr a rhwydweithiau lleol yn cydweithio'n ddigon da â'i gilydd i ddatblygu'r cysyniad o ymgysylltu â dinasyddion gyda dysgwyr. Oherwydd hynny, maent yn colli cyfleoedd i addysgu cymunedau lleol ynghylch rôl cymunedau mewn sut i ddefnyddio ymgynghoriadau'n dda i wella'r modd y caiff y gwasanaeth lleol ei gyflwyno, fel yr argymhellwyd yn Adroddiad Beecham (gweler Atodiad 1).

32 Mewn rhai ardaloedd daearyddol, fel Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Bro Morgannwg a Merthyr, mae'r rhwydweithiau dysgu yn defnyddio dulliau clir o ymgysylltu â dinasyddion. Mae'r ymgynghoriadau hyn yn cynnwys dysgwyr presennol a'r rheiny nad ydynt yn cymryd rhan mewn dysgu ar hyn o bryd, fel ei gilydd. Yn yr achosion hyn, mae gan rwydweithiau darparwyr ymroddiad cryf i gynnwys dysgwyr a'r rheiny nad ydynt yn dysgu ac, oherwydd hynny, maent yn creu ymateb mwy cyson i gynnwys dysgwyr a'r rhwydwaith lleol ehangach wrth ymgynghori â dinasyddion.

## Pa mor dda y mae darparwyr yn cynnwys dysgwyr wrth gynllunio'r cwricwlwm?

33 Gall llawer o ddarparwyr roi enghreifftiau o ble mae ymgynghori gyda grwpiau ffocws dysgwyr a grwpiau dysgu wedi arwain at ymestyn y cwricwlwm. Yn aml, mae'r enghreifftiau hyn yn ymwneud ag ymestyn lefel a hyd y cyrsiau, ond mae rhai enghreifftiau hefyd o ddatblygu rhaglenni i helpu dysgwyr i ddod o hyd i gyflogaeth.

34 Gall llawer o ddarparwr roi enghreifftiau o nodi anghenion dysgwyr o atgyfeiriadau gan weithwyr eraill, fel adrannau awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol ac, ambell waith, gweithwyr Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae hyn yn aml oherwydd trefniadau rhwng darparwyr unigol y tu allan i drefniadau unrhyw rai o'r rhwydweithiau lleol ac anaml iawn y maent yn cynnwys dysgwyr.

35 Yn aml, mae'r cwricwlwm ar gyfer oedolion sy'n dysgu yng Nghymru yn ymwneud â dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur. Mae arolwg o oddeutu 300 o ddysgwyr yn y gymuned ac yn y gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos bod dysgwyr wedi cofrestru ar y cyrsiau canlynol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

| Cwricwlwm | % y dysgwyr | Cwricwlwm | % y dysgwyr |
|---|---|---|---|
| Sut i ddefnyddio cyfrifiadur | 43% | Dysgu Cymraeg | 10% |
| Cyrsiau eraill fel Seicoleg, Cwnsela, Iaith Arwyddion Prydain, Mynediad at AU | 37% | Ieithoedd tramor eraill | 7% |
| Celf a Chrefft | 33% | Therapi iechyd | 4% |
| Iechyd a Diogelwch gan gynnwys Cymorth Cyntaf a Thrin Bwyd | 22% | Sut i gymryd rhan mewn chwaraeon | 3% |
| Medrau Sylfaenol ac SSIE | 18% | Gwyddoniaeth | 1% |
| Sut i redeg grŵp cymunedol | 3% | Hawliau defnyddwyr | 1% |
| Cyfrifyddu | 2% | Drama | 1% |

36 Prin yw'r amrywiadau yn y modd y caiff y cwricwlwm dysgu i oedolion ei gyflwyno ledled Cymru. Mae gan lawer o ddarparwyr yn y gwaith gontract i gynnal cyrsiau penodol, ond gall darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned ddangos mwy o hyblygrwydd yn y modd y caiff cyrsiau eu cyflwyno. Yng Nghaerdydd, mae darparwyr yn datblygu grwpiau maes cwricwlwm ar gyfer darparwyr. Yn yr achosion gorau, fel ym Mlaenau Gwent a Merthyr, mae darparwyr yn cytuno ar bwy ddylai arwain y gwaith i ddatblygu meysydd penodol o'r cwricwlwm.

37 Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn cael eu colli i annog dysgwyr, yn enwedig y rheiny sydd ag anghenion medrau, i nodi'r rhwystrau rhag ymgymryd â chyfleoedd dysgu. Oherwydd hynny, nid yw llawer o ddarparwyr yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r sesiwn y maent yn ei mynychu i wella eu medrau sylfaenol.

38 Roedd adroddiad Estyn ar Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn adrodd nad yw darparwyr yn deall anghenion dysgwyr yn ddigon da.

39 Fodd bynnag, mae'r modd y mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn cyflwyno eu cyrsiau yn eithaf rhagweladwy. Mae llawer ohonynt yn dibynnu gormod ar batrymau cyflwyno traddodiadol o hyd, sy'n golygu eu bod yn cynnal rhaglenni tebyg bob blwyddyn. Mae llawer o ddarparwyr yn dibynnu ar arbenigedd tiwtoriaid presennol mewn pynciau yn hytrach na chanfod yr angen lleol a recriwtio i fodloni'r angen hwn. Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n ymgynghori'n dda â dysgwyr i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dysgu yn eu hardaloedd lleol.

40 Mae enghreifftiau o raglenni defnyddiol a ddatblygwyd trwy gyllid prosiect, yn benodol trwy grantiau gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ac APADGOS. Mae'r rhaglenni hyn â chymorth grant yn defnyddio ymgynghoriadau â dysgwyr yn dda i lunio rhaglenni dysgu sy'n bodloni anghenion lleol.

41 Fe wnaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) reoli'r Gronfa Risg Gymdeithasol[1], a alluogodd cymunedau lleol i gael cyllid i gefnogi eu hanghenion lleol. Fe'i defnyddiwyd gan gymunedau i lunio eu rhaglenni dysgu eu hunain a ddatblygodd eu medrau cyflogadwyedd ac a gefnogodd datblygu cymunedol. Gwnaeth grwpiau o aelodau cymunedau lleol ledled Cymru ddefnyddio da o'r cyllid hwn i gael mynediad at ystod eang o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

**Enghreifftiau da o sut y gwnaeth y Gronfa Risg Gymdeithasol gefnogi dyheadau dysgwyr**

Cymdeithas Gymunedol Trefechan

Gyda chymorth gweithwyr Cymunedau yn Gyntaf, cafodd Cymdeithas Gymunedol Trefechan gymorth i gynnig cyrsiau hylendid bwyd, cymorth cyntaf sylfaenol a chyrsiau medrau sylfaenol i'w gwirfoddolwyr. Mae hyn yn helpu'r dysgwyr hyn i redeg eu caffi cymunedol, mewn ardal arunig ger Merthyr Tudful. Mae'r medrau y mae'r dysgwyr wedi'u cyflawni yn helpu'r caffi i fod yn gynaliadwy ac yn ganolfan gymunedol weithredol i eraill, fel gweithwyr y Ganolfan Byd Gwaith, gysylltu â'r gymuned yn rheolaidd. Mae gan y gymuned leol ymdeimlad o berchnogaeth am y caffi ac yn dweud:

"Nid yw'n ymwneud â'r gweithwyr yn unig – rydym wedi dod yn gyfeirbwynt ar gyfer medrau sylfaenol ac addysg bellach."

Ymddiriedolaeth Treftadaeth Gymunedol Porthaethwy

[1] Cronfa Risg Genedlaethol: rhaglen a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a gwmpasodd Cymru gyfan. Ei nod oedd galluogi cymunedau lleol i'w helpu i greu atebion cymunedol i sefyllfaoedd lleol.

O ganlyniad i ymgynghori â'r gymuned, roedd y gymuned leol am ddatblygu mwy o gyfleoedd i'w cynnig i dwristiaid a oedd yn dod i weld y bont grog hanesyddol yn y dref. Helpodd y prosiect hwn i newid yr edrychiad dirywiedig yn nhref Porthaethwy. Cafodd aelodau'r gymuned eu hyfforddi i fod yn dywyswyr wedi'u cysylltu â'r rhodfeydd lleol. Hefyd, fe wnaethant ddysgu sut i reoli a rhedeg Ymddiriedolaeth Dreftadaeth. Rhoddodd hyn gyfle i ystod o bobl leol, pobl gyflogedig, pobl ddi-waith a phobl wedi ymddeol ddod yn grŵp cymunedol gweithredol sy'n ymroddedig i adfywiad lleol a gwella cyfleoedd ym Mhorthaethwy.

42 Mae APADGOS wedi ymgymryd â chynllun peilot i helpu dysgwyr i gynllunio a chymryd rhan mewn datblygu eu rhaglenni lleol trwy Gyfrifon Dysgu Cymunedol.

**Cyfrifon Dysgu Cymunedol APADGOS**

Datblygwyd pum rhaglen beilot leol oherwydd y fenter hon. Roedd y rhain wedi'u lleoli yn Wrecsam, Aberteifi, Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd. Roedd y pumed raglen yn un Cymru gyfan.

Enghraifft o beilot dysgu cymunedol lleol:

Cymunedau yn Gyntaf CwmNi, Treherbert, Cwm Rhondda

Cafodd pobl leol eu hyfforddi ac fe wnaethant gynnal arolwg cymunedol a nododd ystod o anghenion dysgu. Fe wnaethant ymgynghori ag aelodau eraill y gymuned a chyflogwyr bach lleol ac amrywiaeth o raglenni sy'n cael eu cynnig i ddysgwyr lleol. Cytunodd pob dysgwr ar gytundeb dysgu unigol. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys dealltwriaeth y byddai'r dysgwyr a oedd yn ymgymryd â'r cyfleoedd dysgu hyn yn cynnig eu medrau a'u profiad i'r gymuned leol.

Helpodd y cyrsiau a'r sesiynau dysgu a gynigiwyd i'r gymuned wella eu hyder yn eu gallu i ddod o hyd i waith a'u medrau marchnata, cymorth cyntaf, yr iaith Gymraeg, hylendid bwyd sylfaenol a leinio sych mewn adeiladau. Nododd grwpiau cynllunio lleol a oedd wedi'u lleoli ym mhob un o'r cymunedau lleol fod y rhaglen hon yn cefnogi pum thema a oedd â'r nod o'u helpu i adfywio eu cymunedau:

- Iechyd a Lles;
- Yr Amgylchedd a Thai;
- Busnes a'r Economi;
- Addysg, Ieuenctid a Dysgu Gydol Oes; a
- Diogelwch Cymunedol.

Mae prosiect CwmNi yn ceisio sicrhau y gall dysgwyr drafod eu hanghenion dysgu lleol. Mae hyn yn helpu i greu cydbwysedd da rhwng gallu darparwyr i gynllunio eu rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned yn dda a chymunedau lleol yn gwneud defnydd da o gyfleoedd DOG lleol.

43 Mae’r holl ddarparwyr yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i ddysgwyr gael credyd am eu gwaith. Caiff llawer o ddysgwyr eu hysgogi i gasglu ystod o gredydau o’u cyrsiau. Mae hyn yn helpu dysgwyr i fagu hyder a symud ymlaen yn dda i gymwysterau llawn. Mae lleiafrif o’r dysgwyr hŷn yn poeni nad yw darpariaeth nad yw’n cynnig credydau yn cael ei gwerthfawrogi digon wrth gynllunio dysgu yn y gymuned. Mae’r dysgwyr hyn o’r farn nad yw darparwyr na LlCC bob amser yn deall y gwerth y maent yn ei roi ar y ddarpariaeth hon.

44 Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi’r cyfle i ddefnyddio eu dysgu nad yw wedi’i achredu i wella bywyd y gymuned ac i gyfrannu at eu hiechyd a’u lles eu hunain. Nid yw dysgwyr bob amser yn cael cyfleoedd da i drafod y modd y caiff y ddarpariaeth hon ei chynllunio gyda darparwyr.

## Pa mor dda y mae darparwyr a rhwydweithiau dysgu oedolion yn rhannu gwybodaeth gyda dysgwyr?

45 Mae bron pob darparwr sy’n gysylltiedig â rhwydweithiau dysgu yn rhannu gwybodaeth ar draws y rhwydweithiau. Mae pob gweithiwr yn perthyn i ystod o rwydweithiau. Mae’r ystod yn amrywio’n fawr ac, yn aml, mae aelodaeth y grwpiau hyn yn dibynnu ar ddewis y gweithiwr yn hytrach na blaenoriaethau strategol. Mewn rhai achosion, mae mwy nag un gweithiwr o ddarparwr unigol yn mynychu cyfarfodydd yr un rhwydwaith.

46 Ychydig iawn o enghreifftiau sydd o wybodaeth sy’n cael ei rhannu mewn rhwydweithiau yn cael ei rhannu gyda’r dysgwyr hefyd. Mae rhai darparwyr, er enghraifft darparwyr yr Undebau Llafur a Rhwydwaith Dysgu Cymunedol Caerdydd, wedi datblygu cyfleoedd ar gyfer eiriolwyr dysgwyr. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymgysylltu â darparwyr. Mae’r eiriolwyr hyn yn gweithio fel gwirfoddolwyr yn eu cymunedau lleol ac yn rhannu eu profiad o ddysgu yn lleol er mwyn annog dysgwyr newydd i fod yn fwy ymwybodol o raglenni dysgu lleol.

47 Ym Mlaenau Gwent, Torfaen, Casnewydd, Sir Fynwy a Chaerffili, mae RISE[2] hefyd wedi datblygu Pwyllgorau Datblygu Dysgu lleol ar draws dysgwyr, sy’n aelodau o’r grwpiau hyn. Yna, mae Partneriaeth a Byrddau Gweithredol RISE yn trafod y materion sy’n cael eu codi gan y pwyllgorau hyn.

48 Mae darparwyr sy’n datblygu dulliau cyson o rannu gwybodaeth ac ymgynghori â dysgwyr yn helpu dysgwyr i fod yn wybodus ac i fynegi eu disgwyliadau a’u dyheadau, fel yr argymhellwyd yn Adroddiad Beecham. (Gweler Atodiad 2.)

49 Mae un Canolfan Cymraeg i Oedolion, ynghyd â’i darparwyr, ar fin sefydlu clybiau i ddysgwyr ymarfer eu medrau iaith Gymraeg ac i integreiddio dysgwyr yn y gymuned leol. Nid yw darparwyr a rhwydweithiau bob amser yn nodi cyfleoedd fel hyn fel dull o ddatblygu prosesau ymgynghori dwyffordd da gyda dysgwyr ynghylch datblygu’r ddarpariaeth.

50 Nid yw rhannu dulliau llwyddiannus o gynnwys dysgwyr mewn ymgynghoriadau yn ddigon cyson ar draws y rhwydweithiau dysgu o hyd, ac mae’n dibynnu gormod ar bersonoliaeth gweithwyr a swyddogion lleol i lwyddo.

51 Nid yw’r agenda ymgynghori ac ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei chydnabod yn ddigon da ar lefelau corfforaethol lleol a’r llywodraeth genedlaethol. Mae hyn yn golygu nad yw ymgysylltiad gweithwyr a swyddogion â’r gwaith hwn yn cael ei nodi’n ddigon clir mewn swydd ddisgrifiadau bob tro er mwyn sicrhau bod ymgysylltiad â dinasyddion yn gyson.

52 Nid yw adrannau LICC, fel APADGOS; Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Treftadaeth; a Materion Gwledig, yn annog digon o weithio ar y cyd i ddatblygu disgwyliadau clir ar gyfer cynnwys dinasyddion mewn rhwydweithiau bob tro. Mae angen eglurhad ar ddarparwyr o’r ffordd orau i fynd i’r afael â’u diben cyffredin wrth gefnogi’r model cyflwyno yn ‘Creu’r Cysylltiadau’, sy’n canolbwyntio ar y dinesydd.

2 Partneriaeth strategol yw RISE rhwng awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch sy’n gweithredu ar draws y pump ardal bwrdeistref sirol yn hen sir Gwent.

## Pa mor dda y mae darparwyr yn defnyddio ymgynghori â dysgwyr a'u cymunedau i fynd i'r afael â mentrau polisi LlCC?

53 Ychydig iawn o weithwyr a rheolwyr sy'n cydnabod y cysylltiadau rhwng eu gwaith yn llunio rhaglenni dysgu a mentrau polisi presennol LlCC. Dim ond 7% o'r gweithwyr a oedd yn gallu disgrifio ble mae eu gwaith yn cysylltu â mentrau polisi. Menter 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yw'r un fwyaf cyffredin sy'n cael ei chydnabod gan ddarparwyr.

54 Mae llawer o ddarparwyr rhwydwaith yn cydnabod pwysigrwydd datblygu medrau cyflogaeth. Mae 64% o weithwyr yn datblygu eu gwaith fel bod cysylltiadau â chyfleoedd cyflogaeth. Er enghraifft, mae colegau fel Llandrillo a Harlech/CAG (Gogledd) yng Ngogledd Cymru yn cydnabod sut y gall dysgu oedolion a dysgu yn y gwaith hyrwyddo cyfleoedd da i ddysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd wella eu cyflogadwyedd. Mae darparwyr wedi gwneud defnydd da o gysylltiadau â rhaglenni eraill mewn darpariaethau gwirfoddol ac yn narpariaeth yr awdurdod lleol, er enghraifft, Merthyr Tudful, i wella'r cyfleoedd ar gyfer y dysgwyr hyn.

55 Fodd bynnag, ychydig iawn o ddarparwyr sy'n deall yr angen i ddatblygu dulliau o ymgynghori â chymunedau, fel y disgrifiwyd yn Adroddiad Beecham. Mae'r mwyafrif o gydlynwyr rhwydweithiau yn mynegi bod diffyg eglurder wrth gydlynu gwaith darparwyr ar draws yr ardal ac nad yw'r holl reolwyr yn deall egwyddorion gwaith partneriaeth da.

56 Canfu'r dystiolaeth a roddwyd yn Adroddiad Beecham fod gan y diwylliant gwaith yng Nghymru y nodweddion canlynol:

- cystadleurwydd rhwng gwahanol sefydliadau, gan arwain at brinder dulliau 'cydgysylltiedig' a diffyg cydweithio a rhannu gwybodaeth;
- diwylliant sy'n cael ei arwain gan dargedau, lle nad yw'r canlyniadau ar lawr gwlad yn cael eu hadolygu na'u holrhain;
- mentrau polisi sy'n cael eu symud ymlaen ar sail yr hyn sydd orau i'r sefydliad, yn hytrach nag er budd aelodau'r cyhoedd y mae'r sefydliad yn eu gwasanaethu;
- dim methodoleg ar gyfer sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu dilyn nac ar gyfer casglu adborth gan y bobl y mae'r gwasanaeth yn darparu ar eu cyfer;
- eithrio aelodau'r cyhoedd o grwpiau sy'n cael eu heithrio'n gymdeithasol ac sydd â diddordeb gwirioneddol, gan olygu eu bod yn parhau i gael eu heithrio'n gymdeithasol; ac
- amharodrwydd i wrando ar adborth, oni bai ei fod yn cefnogi barn bresennol y rheiny sy'n darparu'r gwasanaeth.

57 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn ddigon clir bob tro ynghylch sut i roi'r sbardunau hyn ar gyfer newid ar waith. Oherwydd hynny, ychydig iawn o weithwyr sy'n gwybod sut y dylai ymgynghori â dysgwyr ddylanwadu ar eu gwaith eu hunain i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu'n fwy â'u cymunedau.

58 Yn wahanol i Loegr, nid oes gan Cymru ddull o ffocysu barnau dysgwyr yn genedlaethol. Mae'r Panel Dysgwyr Cenedlaethol yn Lloegr (Atodiad 3) yn gofyn i oedolion sy'n dysgu roi eu barn am faterion pwysig sy'n effeithio ar ddysgwyr. Mae'r panel wedi tanlinellu pwysigrwydd clywed 'llais y dysgwr'. Rhai o argymhellion y panel yw:

- bod rhaid i ddulliau ar gyfer clywed llais y dysgwr adlewyrchu amrywiaeth y gymuned ddysgu a chael eu hymgorffori ar lefelau lleol a chenedlaethol;
- bod dulliau clir yn cael eu hyrwyddo i ddysgwyr fel y gallant gyfrannu at benderfyniadau, yn enwedig yn ymwneud â'r ddarpariaeth; a
- bod dulliau yn cael eu hymgorffori er mwyn sicrhau bod arfer orau yn cael ei rhannu rhwng awdurdodau lleol sy'n wynebu heriau tebyg.

## Sut gall cyfranogiad dysgwyr mewn cynllunio dysgu oedolion yn y gymuned symud ymlaen?

59 Mae pob gweithiwr yng Nghymru yn perthyn i lawer o rwydweithiau a gweithgorau ar draws eu hardaloedd. Ychydig iawn o'r grwpiau hyn sy'n ystyried dulliau o ymgysylltu â dysgwyr wrth ddatblygu dysgu yn eu hardal leol.

60 Amlinellodd yr adolygiad polisi diweddar o ddysgu oedolion yn y gymuned yr angen i ddysgu oedolion yn y gymuned fod â chysylltiadau cryf ag ystod eang o strategaethau a mentrau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru y tu hwnt i ddatblygu cymunedol:

*"Mae gan dysgu oedolion yn y gymuned ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at flaenoriaethau polisi, fel cynhwysiad cymdeithasol ac iechyd a lles. Felly, mae cyfleoedd i gefnogi datblygu agendâu polisi eraill y gellir cysylltu dysgu oedolion yn y gymuned yn agos â nhw."*

61 Nid yw cysylltiadau rhwng adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos yn glir bob tro sut mae strategaeth a thargedau i ymgysylltu â dinasyddion yn cysylltu â'i gilydd. Mae hyn yn golygu nad yw darparwyr na rhwydweithiau yn ddigon clir ynghylch sut mae rôl dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith yn cyfrannu at ymgysylltu â dinasyddion. Mae APADGOS ac adrannau eraill priodol LlCC wedi ei gwneud yn glir sut y gall darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith gyfrannu at symud gwelliannau i wasanaethau ymlaen trwy ymgynghori â chymunedau lleol yn fwy effeithiol.

62 Nid yw'r cysylltiadau hyn bob amser yn ystyried darpariaeth a allai alluogi i ddysgwr symud ymlaen i addysg bellach ac uwch neu gyflogaeth, p'un a yw'n daledig neu'n wirfoddol. Hefyd, nid yw'r ddarpariaeth hon bob amser yn cynnig buddion ehangach i gymunedau, fel cynhwysiad cymdeithasol gwell neu iechyd a lles gwell.

63 Yn aml, mae enghreifftiau o arfer dda y tu allan i ddarpariaeth APADGOS mewn rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, adrannau awdurdodau lleol, amgueddfeydd a rhaglenni Dysgu Gydol Oes darparwyr addysg uwch. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnwys bob tro wrth ymgynghori â dysgwyr a chynllunio rhaglenni dysgu yn y gymuned.

64 Nid yw cysylltiadau â'r mentrau cymunedol ehangach mewn rhaglenni eraill LlCC bob amser yn cefnogi'r ymgynghoriadau hyn mewn dull ar y cyd. Oherwydd hynny, nid yw ymgynghoriadau â dysgwyr yn rhoi digon o ystyriaeth i ystod y canlyniadau dysgu y gallai dysgwyr yn y gymuned fod eisiau eu cyflawni.

## Atodiad 1: Adroddiad Beecham: Model y Dinesydd – goblygiadau ar gyfer dysgwyr

**Model y Dinesydd**

*Beth mae'n ei olygu ar gyfer dinasyddion:*

- mae dinasyddion yn ymddiried mewn gwasanaethau cyhoeddus;
- mae dinasyddion yn derbyn gwasanaethau cydgysylltiedig, personol, o ansawdd uchel, sydd wedi'u cynllunio ar draws ffiniau sefydliadol;
- mae dinasyddion yn cael iawndal buan a phriodol;
- mae dinasyddion yn cael gwybodaeth dda ac mae ganddynt ddulliau ystyrlon ac amrywiol o fynegi disgwyliadau, profiad ac anghenion ym mhob maes o'r llywodraeth;
- mae llais y dinesydd yn cael ei glywed a'i wrando arno, beth bynnag yw gallu'r unigolyn i leisio ei anghenion;
- mae dinasyddion yn gwybod pa mor dda y mae gwasanaethau yn eu hardal yn perfformio ac yn gweld bod sefydliadau'n cael eu dwyn i gyfrif yn gryf gan eu cynrychiolwyr;
- mae dinasyddion yn deall bod rhaid cydbwyso anghenion unigol a chyfunol a bod rhaid newid y modd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno er mwyn sicrhau gwelliannau;
- mae dinasyddion yn deall bod ganddynt hawliau a chyfrifoldebau hefyd;
- mae dinasyddion yn deall faint o arian sy'n llifo i'w hardal gyfan a sut y caiff ei wario; a
- beth yw'r canlyniadau a ph'un a ydynt yn cael gwerth am arian ai peidio.

## Atodiad 2: Adroddiad Beecham: Model y Dinesydd – goblygiadau ar gyfer sefydliadau

**Model y Dinesydd**

*Beth mae'n ei olygu ar gyfer sefydliadau:*

- mae diwylliant sefydliadol yn edrych tuag allan ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer dinasyddion;
- mae prosesau effeithiol ar waith ar gyfer hysbysu dinasyddion ac ymgysylltu â nhw;
- mae ymgysylltiad cryf â sefydliadau sy'n gallu mynegi llais a phrofiad dinasyddion;
- mae gwybodaeth wrthrychol am ganfyddiadau a boddhad dinasyddion yn hawdd ei chael;
- mae craffu yn cael ei barchu, yn rhagweithiol, yn drawsbynciol ac yn anwleidyddol;
- mae gwasanaethau yn gydgysylltiedig ac yn bersonol: mae'r broses fusnes rhwng sefydliadau a sectorau yn gyfath ac yn gyflenwol;
- mae sefydliadau yn cyfuno sofraniaeth ac adnoddau er mwyn gwella a chyflwyno canlyniadau i ddinasyddion;
- mae systemau cwyno a gwneud yn iawn yn syml, yn hygyrch ac yn gyfath ar draws ffiniau sefydliadol a sectoraidd;
- mae sefydliadau yn denu, yn cadw ac yn ysgogi talent trwy chwilio am ragoriaeth ac arloesedd sy'n cael eu dathlu;
- mae'r gweithlu gwasanaeth cyhoeddus wedi'i integreiddio, gyda medrau sy'n cyd-fynd ag anghenion presennol a heriau'r dyfodol;
- mae amrywiaeth y ddarpariaeth yn cael ei chroesawu fel dull o herio ac arloesi;
- caiff perfformiad ei adrodd, ei herio, ei gefnogi a'i ddatblygu'n wrthrychol;
- mae effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn hanfodion diwylliannol cryf;
- mae ymateb buan i newid proffesiynol, technegol a demograffig; ac
- mae datganoliaeth ar bob lefel: mae sefydliadau lleol yn meddu ar ymreolaeth i bennu polisïau lleol a chânt eu grymuso i gyflwyno blaenoriaethau lleol a chenedlaethol mewn modd hyblyg ac ymatebol.

## Atodiad 3: Panel Dysgwyr Cenedlaethol Lloegr

"Sefydlwyd y Panel Dysgwyr Cenedlaethol gan y llywodraeth i roi cyfle i ddysgwyr ddweud eu dweud ar ddatblygu addysg bellach ar lefel genedlaethol. Mae'r Panel yn cael ei noddi gan y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau, ac mae'n rhoi cyngor i'r llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau. Trwy roi safbwynt dysgwyr am bolisïau, cynigion a mentrau, ei nod yw gwneud gwahaniaeth i'ch profiad o addysg bellach – p'un a ydych yn dysgu yn y gwaith, yn astudio mewn coleg, yn mynychu dosbarthiadau nos neu mewn unrhyw fath arall o ddysgu i oedolion.

"Mae aelodau'r panel yn wirfoddolwyr annibynnol, rhan-amser. Mae unrhyw un sy'n gweithio ym maes addysg bellach yn gymwys i ymuno â'r Panel – yr unig beth y sydd ei angen yw diddordeb mewn addysg bellach ac ymroddiad i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion dysgwyr. Mae'r aelodau'n adlewyrchu ystod eang o ddysgwyr mewn addysg bellach. Fe'u cymerir o bob rhan o'r sector, gan gynnwys dysgwyr mewn colegau a'r rheiny sy'n dysgu yn y gwaith. Mae'r Panel wedi cynnwys pobl sydd newydd adael yr ysgol, pobl sy'n dychwelyd i ddysgu yn hwyrach yn eu bywydau er mwyn rhoi hwb i'w rhagolygon gyrfa, a'r rheiny sydd wedi ymddeol ac sy'n dysgu er pleser. Mae'r aelodau presennol yn amrywio o 18 i 65 oed."

http://www.direct.gov.uk/cy/EducationAndLearning/AdultLearning/Shapinglearning/DG_068290CY

## Geirfa / cyfeiriadau

**Rhwydweithiau Dysgu Cymunedol**

Rhwydweithiau o ddarparwyr yw'r rhain sy'n cael eu hariannu gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) fel arfer.  Mae'r darparwyr hyn yn gweithio ochr yn ochr â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac yn darparu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion sy'n dysgu yn y gymuned.  Dechreuodd Estyn arolygu'r darparwyr hyn yn 2004, ac erbyn 2010 bydd wedi cwblhau'r cylch arolygu hwn.  Mae copïau o'r adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn **www.estyn.gov.uk**

## Awdur a thîm yr adroddiad

| | |
|---|---|
| Enid Hankins AEM | Awdur yr adroddiad |
| Stephen Davies AEM | |

**Sut y casglwyd tystiolaeth**

Cyn cynhyrchu'r adroddiad, fe wnaeth y tîm:

- adolygu adroddiadau arolygu Estyn ar ddysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith;
- archwilio ymatebion i holiadur a anfonwyd at gydlynwyr pob rhwydwaith dysgu oedolion yn y gymuned;
- archwilio ymatebion i holiadur a anfonwyd at 70 o weithwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith;
- archwilio ymatebion i holiadur a anfonwyd at 300 o oedolion sy'n dysgu ledled Cymru;
- cyfweld ag uwch swyddogion yn y sector gwirfoddol ac mewn awdurdodau lleol;
- cyfweld â grŵp ffocws o banel dysgwyr NIACE; a
- chyfweld ag uwch swyddogion o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.